Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu

**Meithrinfa Bach Hapus**

**Borthwen**
**Ffordd Penmynydd**
**Llanfair Pwllgwyngyll**
**LL61 5JH**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

2/8/2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***
*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Meithrinfa Bach Hapus

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal dydd i blant<br>Gofal dydd llawn |
| Person cofrestredig | Samantha Hughes |
| Lleoedd cofrestredig | 34 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy iaith |
| Arolygiad blaenorol gan Arolygiaeth Gofal Cymru | Mewnosod â llaw<br><br>25 Ionawr 2022 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Mewnosod â llaw<br><br>Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg ac yn bwriadu dod yn lleoliad dwyieithog neu'n arddangos ymdrech sylweddol i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a'i diwylliant. |

## Crynodeb

Roedd hwn yn arolygiad â ffocws ac, ar yr achlysur hwn, ni wnaethom ystyried gofal a datblygiad, yr amgylchedd, nac arweinyddiaeth a rheolaeth yn llawn.

Mae gan y plant gyfleoedd da i wneud dewisiadau a phenderfyniadau am yr hyn sy'n cael effaith arnynt. Maent yn cyfathrebu eu hanghenion ac yn dilyn eu diddordebau eu hunain yn dda. Mae'r plant yn hapus ac yn ymgartrefu wrth iddynt gael eu cyfarch yn gynnes gan staff cyfeillgar. Mae rhyngweithiadau rhwng y plant a staff yn dda yn gyson ac mae'r plant yn cydweithredu yn briodol, gan ymgysylltu a mynegi diddordeb yn weithredol. Mae'r plant yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu ac yn cael dewis rhesymol o gyfleoedd priodol a gallant hefyd ymlacio a chael amser tawel. Maent yn datblygu eu hannibyniaeth yn addas. Mae gan y staff ddealltwriaeth briodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae ganddynt agwedd gynnes tuag at roi gofal ac maent yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'r plant. Mae'r staff yn darparu amrywiaeth o weithgareddau addas a phriodol i'w hoedran i ddatblygu chwarae a dysgu'r plant. Mae'r amgylchedd dan do yn lân ac wedi'i drefnu'n ddeniadol. Mae adnoddau a theganau yn addas ar gyfer oedran a chyfnodau datblygiad plentyn. Ni welsom chwarae yn yr awyr agored. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi gwneud gwelliannau da, ond mae angen datblygu rhai meysydd ymhellach. Mae'r lleoliad yn gweithredu'n ddwyieithog.

## Llesiant

Mae'r plant yn cael profiad o amryw o gyfleoedd sy'n briodol o ran oed / yn ddatblygiadol ac sy'n hyrwyddo eu datblygiad cyflawn ac yn eu galluogi i ddilyn eu diddordebau eu hunain.

Mae'r plant yn gyfathrebwyr hyderus ac yn mynegi eu hunain yn dda. Maen nhw'n gofyn ein henw i ni ac yn dangos diddordeb yn yr hyn roedden ni'n ei wneud. Siaradodd y plant â ni am bwy yw eu ffrindiau a dweud wrthym eu bod yn mwynhau chwarae â’r trac rasio a lliwio lluniau. Dywedodd plentyn ei fod yn hoffi'r rhan fwyaf o'r prydau a gynigir ond dywedodd nad oedd yn hoffi pîn-afal. Roedd plant iau yn gwneud eu ceisiadau trwy glebran a phwyntio at yr hyn yr hoffent ei wneud nesaf. Er enghraifft, rhoddodd plentyn y llyfr stori o'i ddewis i aelod o’r staff ac eisteddodd yn hapus ar ei ben-glin i gael ei ddarllen iddo.

Mae'r plant yn ymgartrefu'n dda gan eu bod yn cael eu cyfarch yn gynnes gan staff cyfeillgar. Maent yn mynd at y staff yn rhwydd – er enghraifft, pan fyddant wedi blino, ychydig o blant iau a gododd eu breichiau i gael eu cysuro tra oedd eraill eisiau gweld allan o'r ffenestr a phwyso eu llaw yn erbyn y gwydr wrth i'r glaw ddisgyn. Ymatebir i geisiadau'r plant mewn modd amserol, ac mae hyn yn gwneud iddynt deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'u ffrindiau a'r rhai sy'n gofalu amdanynt. Maent yn eistedd yn braf wrth y bwrdd i gael eu prydau bwyd, gan fwynhau'r achlysur cymdeithasol hwn gyda'i gilydd. Mae'r plant yn gwrtais ac yn ymarfer dangos parch. Maent yn dysgu cymryd eu tro a rhannu – er enghraifft, roedd y plant yn cymryd eu tro i ganu'r offerynnau cerdd ac yn cydweithio'n dda i dacluso eu teganau.

Mae'r plant yn ymgysylltu â'u chwarae a'u dysgu yn weithredol. Bu plant iau yn archwilio eu man chwarae yn rhydd, gan wneud dewisiadau am yr hyn yr oeddent am chwarae ag ef. Roedd plentyn yn mwynhau datblygu ei ddychymyg yn y gornel gartref: dangosodd y staff sut yr oedd yn smalio coginio a gwenu wrth osod selsig tegan ar blât. Mae'r plant yn chwilfrydig – er enghraifft, fe wnaeth plentyn droi bocs o gerbydau drosodd a chwilio am beiriant cloddio, arbrofodd gyda mudiant a chyflymder, ac roedd yn brysur yn archwilio sut roedd y cerbyd yn symud i fyny ac i lawr. Mae'r plant yn ymarfer datblygu eu sgiliau synhwyraidd – er enghraifft, cynhaliodd plentyn ddiddordeb wrth iddo ysgwyd gwahanol beli a gwrando ar y sŵn roedd yn ei greu.

Mae’r plant yn meithrin eu sgiliau annibyniaeth yn briodol. Maent yn dangos i ni sut maent yn golchi ac yn sychu eu dwylo ac yn rhoi'r tywel papur yn y bin a ddarperir. Dangosodd plentyn gyda balchder sut y gall agor ei botel ddiod ei hun. Mae plant iau yn dyfalbarhau i fwydo eu hunain ac mae plant hŷn yn defnyddio eu cyllyll a ffyrc yn dda. Mwynhaodd blentyn iau ychydig o amser tawel a dangosodd ddiddordeb mewn troelli'r gwahanol flociau pren yr wyddor yn ofalus ar yr abacws. Maent yn dysgu sut i wneud pethau drostynt eu hunain gydag anogaeth gadarnhaol oddi wrth y staff.

## Gofal a Datblygiad

Gan fod hwn yn arolygiad â ffocws, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Mae gan y staff agwedd gyfeillgar a gofalgar ac maent yn rheoli rhyngweithio yn gadarnhaol. Maent yn canmol y plant yn gyson am eu hymdrechion ac yn dathlu eu cyflawniadau.

Mae'r staff yn deall eu rôl a'u cyfrifoldebau o ran cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn cofnodi presenoldeb dyddiol y plant yn gyson, ond nid ydynt yn cofnodi eu seibiannau eu hunain. Nid yw'r person cofrestredig yn cofnodi ei phresenoldeb ei hun. Mae gan y staff hyfforddiant cyfredol mewn diogelu a chymorth cyntaf sy'n addas ar gyfer oedran y plant y gofelir amdanynt. Maent yn hybu ffyrdd iach o fyw ac yn annog y plant i fwyta'n iach a bod yn heini.

Mae'r staff yn annog y plant i olchi eu dwylo ac mae hyn yn helpu i ddatblygu eu harferion hylendid personol yn briodol. Maent yn cwblhau cofnodion damweiniau a digwyddiadau ac mae'r rhain yn cael eu llofnodi gan rieni i gydnabod eu bod yn cael eu hysbsu.

Mae'r staff yn mwynhau cyflawniadau'r plant ac yn eu canmol yn briodol. Maent yn darparu amgylchedd cartrefol ac yn cofleidio'r plant pan fydd angen i roi cysur a sicrwydd iddynt.

Mae'r staff yn cynllunio gweithgareddau'n briodol ac yn annog y plant i ddatblygu eu chwarae a'u dysgu'n dda. Dywedodd y person â chyfrifoldeb wrthym ei bod wedi neilltuo amser i gefnogi staff i drefnu ac arwain gweithgareddau gwell ar gyfer plant iau. Dywedodd eu bod yn gweithio ar ddatblygu dull mwy ymatebol o gynllunio gweithgareddau. Gwelsom staff yn arwain sesiwn ganu a cherddoriaeth hwyliog i'r plant iau a'u hannog i roi cynnig ar amrywiaeth o offerynnau taro a'u chwarae. Roedd y storïau a ddarllenwyd i'r plant ar gyflymder priodol ac roedd y staff yn gwahodd y plant i ryngweithio trwy wneud sylwadau ar y lluniau.

## Yr Amgylchedd

Gan fod hwn yn arolygiad â ffocws, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Mae'r bobl sy'n cynnal y lleoliad yn darparu amgylchedd diogel a glân lle gall plant chwarae a dysgu'n effeithiol. Maent wedi gweithio'n galed i wneud gwelliannau da i'r teganau a'r adnoddau sydd ar gael.

Mae asesiadau risg a gwiriadau diogelwch dyddiol wedi'u diweddaru ac yn nodi'n briodol y peryglon posibl i'r plant a pha fesurau sydd ar waith i reoli'r risgiau hyn. Ers COVID-19, mae'r person â chyfrifoldeb yn sicrhau bod y staff wedi cynyddu'r arferion glanhau ac yn dilyn canllawiau cyfredol. Fodd bynnag, roedd mat yr orsaf newid cewynnau wedi treulio ac wedi'i ddifrodi. Gwnaethom drafod y risg o groes-halogi gyda'r person cofrestredig, a chymerodd gamau ar unwaith i hysbysu'r staff i beidio â defnyddio'r cyfarpar hwn i newid cewynnau'r plant. Cadarnhaodd y person cofrestredig fod trefniadau eraill ar waith bellach i ddefnyddio matiau llawr sydd mewn cyflwr addas. Mae gwybodaeth ar gael i bawb am sut y dylent ymdrin ag argyfyngau. Mae'r staff yn goruchwylio'r plant yn dda yn ystod eu gweithgareddau.

Mae cynllun yr ystafell chwarae yn hyrwyddo annibyniaeth y plant, gan eu galluogi i archwilio'n rhydd a gwneud eu dewisiadau eu hunain am yr hyn y maent am chwarae ag ef. Mae ystod eang o deganau ac adnoddau ar gyfer yr oedrannau sy'n derbyn gofal ac mae gan y plant fynediad at ddodrefn o faint priodol. Mae soffa newydd wedi'i phrynu fel bod staff yn fwy cyfforddus i eistedd gyda phlant iau i'w bwydo â photel a'u cysuro. Mae'r ystafelloedd chwarae wedi'u haddurno'n dda, ac mae gan y plant ardal benodol i gadw eu heitemau personol, sy'n creu ymdeimlad o berthyn.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y cyfleusterau storio dan do yn addas ac yn hygyrch i'r plant. Mae meysydd dysgu wedi'u trefnu'n briodol ac mae detholiad addas o adnoddau i ddatblygu sgiliau synhwyraidd, ieithyddol, rhifedd a hunanymwybyddiaeth y plant. Mae llyfrau ac ardaloedd clyd wedi'u trefnu'n dda ac mae hyn yn caniatáu i'r plant gael rhywfaint o amser tawel a gorffwys. Nid arolygwyd y man awyr agored yn ystod ein hymweliad oherwydd y tywydd gwael.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Gan fod hwn yn arolygiad â ffocws, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi ymrwymo i wneud gwelliannau i greu canlyniadau gwell i'r plant, ond mae angen datblygiadau pellach i gydymffurfio â'r rheoliadau.

Ers ein hymweliad, mae'r person cofrestredig wedi diweddaru'r datganiad o ddiben, ac mae hyn yn adlewyrchu'r hyn y mae'r lleoliad yn ei gynnig. Mae hi wedi sicrhau bod datganiad asesu’r gwasanaeth wedi'i gyflwyno.

Mae'r adroddiad sy'n adolygu ansawdd y gofal yn cynnwys sylwadau'r rhai sy'n defnyddio'r lleoliad ond nid yw'n darlunio’r weledigaeth ar gyfer y lleoliad wrth symud ymlaen na'r gwelliannau sydd wedi'u gwneud i greu canlyniadau gwell i’r plant.

Nid yw'r person cofrestredig wedi sicrhau bod ei thystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, a thystysgrifau'r holl aelodau staff i gyd, yn gyfredol. Gwnaethom archwilio ffeil aelod newydd o staff ond nid oedd yr holl wybodaeth ofynnol wedi'i chasglu. Mae'r person cofrestredig yn sicrhau bod y staff yn cael sesiynau goruchwylio ac arfarniadau, a bod y trafodaethau hyn yn cael eu cofnodi. Gwnaethom arolygu cofnodion unigol dau blentyn, ac roedd y rhain wedi'u cwblhau'n llawn.

Mae'r person cofrestredig wedi adolygu a gwella'r defnydd o staff ym mhob ystafell chwarae. Mae hi'n sicrhau bod staff cymwys yn bresennol i gefnogi'r aelodau hynny o staff sy'n cyflawni prentisiaeth. Dywedodd y person cofrestredig wrthym ei bod hi hefyd yn gwneud yn siŵr ei bod hi neu un o'r personau â chyfrifoldeb yn ychwanegol at y niferoedd gofynnol bob dydd er mwyn sicrhau eu bod yn gallu goruchwylio a rheoli'r feithrinfa yn effeithiol a chefnogi'r staff yn llawn yn eu rôl. Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn mwynhau eu swydd ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn eu rôl o ofalu am blant.

## Argymhellion i fodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol

A1: Pob aelod o staff i gofnodi eu seibiannau eu hunain; cynnwys cofnod presenoldeb ar gyfer y person cofrestredig.

A2: Cynnwys y weledigaeth ar gyfer y lleoliad a'r gwelliannau a wnaed yn yr adroddiad sy'n adolygu ansawdd y gofal.

| Crynodeb o'r Diffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn a chafodd ei gyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan nodir canlyniadau gwael ar gyfer y bobl, a/neu risg i lesiant y bobl, drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i’r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i’r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae’n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio’r mater i Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 6 | Mae'r person cofrestredig wedi methu â dangos ei haddasrwydd parhaus i AGC ac nid yw wedi cyflwyno tystysgrif datgeliad manylach gyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Mae angen i'r person cofrestredig wneud cais i adnewyddu ei gwiriad manylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a threfnu i gyflwyno'r dystysgrif newydd i AGC. | Newydd |
| 20 | Mae'r person cofrestredig wedi methu â sicrhau bod gan bob aelod o staff dystysgrif datgeliad manylach gyfredol y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Mae angen i'r person cofrestredig sicrhau bod yr holl staff yn cael gwiriad manylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a chyflwyno cadarnhad ysgrifenedig i AGC ei bod wedi gweld y dystysgrif wreiddiol a'i bod yn fodlon ar ganlyniad y gwiriad manylach. | Newydd |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 28 | Nid yw'r person cofrestredig wedi sicrhau bod yr holl wybodaeth ofynnol wedi'i choladu yn ffeiliau cyflogaeth y staff. Rhaid i'r person cofrestredig goladu'r holl wybodaeth ofynnol i sicrhau bod yr holl staff yn addas i weithio gyda phlant. | Newydd |

**Dyddiad cyhoeddi** 21/09/2022